

SL(5)735 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â diogelu dyfroedd rhag llygredd a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli—

(a) Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2506 (Cy. 245)) sydd yn rheoli'r broses o ddodi gwrtaith nitrogen mewn ardaloedd sy'n agored i niwed gan nitradau, a

(b) Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd (Silwair a Slyri) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1493 (Cy. 136)) sydd yn rheoleiddio gofalu am silwair a slyri a rheoli silwair a slyri, gan ddarparu'r safonau dylunio ac adeiladu sy'n gymwys ar gyfer eu storio.

Roedd y gofynion o dan Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013 ond yn gymwys i ddaliadau a oedd wedi eu lleoli mewn Parthau Perygl Nitradau a ddynodwyd, bydd y gofynion hyn bellach yn gymwys i bob daliad yng Nghymru. Bydd y rhan fwyaf o'r mesurau yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair a Slyri (Cymru) 2010 yn parhau i fod yn gymwys o dan y Rheoliadau hyn, ond mae'r gofynion o ran capasiti ar gyfer storio tail organig a silwair yn y Rheoliadau hynny wedi eu disodli gan y gofynion hynny yn Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013.

Bydd yn ofynnol i unrhyw bersonau sy'n bwriadu adeiladu neu wella eu cyfleuster storio ar gyfer slyri neu silwair hysbysu Corff Adnoddau Naturiol Cymru ("CANC") am hynny 14 o ddiwrnodau cyn cychwyn y gwaith adeiladu.

Mae hyn yn disodli'r gofyniad blaenorol i roi hysbysiad cyn dechrau defnyddio'r cyfleuster storio.

Rhaid i feddianwyr daliadau organig sy'n dymuno elwa ar yr esemptiad i'r cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd (rheoliad 20) gyflwyno ymgymeriad bellach i'r system reoli y cyfeirir ati yn Erthygl 27 o Reoliad y Cyngor (EC) 834/2007 yn hytrach na chofrestru gyda'r Pwyllgor Cyngori ar Safonau Organig (sydd bellach wedi ei ddiddymu).

Gweithdrefn

Negyddol



Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae rheoliad 30 yn galluogi CANC i gyflwyno hysbysiad i'w gwneud yn ofynnol i berson wneud gwaith, neu gymryd rhagofalon neu gamau eraill, a bennir yn yr hysbysiad. Y cyfnod i gydymffurfio â hysbysiad o'r fath yw 28 niwrnod, neu unrhyw gyfnod hwy sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau (rheoliad 30(4)).

Gellir cyflwyno apeliadau yn erbyn hysbysiadau rheoliad 30 i Weinidogion Cymru, yn unol â rheoliad 31. Pan gyflwynir apêl o'r fath, mae rheoliad 31(6) yn darparu bod y cyfnod ar gyfer cydymffurfio yn "ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd o dan baragraff (5)" (a all, ymysg pethau eraill, estyn y cyfnod ar gyfer cydymffurfio ag unrhyw ofyniad) "fel ei fod yn dod i ben ar y dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu'n derfynol ar yr apêl neu, os tynnir yr apêl yn ei hôl, ar ddyddiad ei thynnu'n ôl". Pan fydd apelydd yn tynnu apêl yn ôl, byddai'r apelydd yn gallu paratoi i gydymffurfio â'r hysbysiad. Fodd bynnag, pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ynghylch yr apêl ac, o'r herwydd, ei bod yn ofynnol ymgymryd â gwaith, rhagofalon neu gamau eraill, mae'n ymddangos bod yna amgylchiadau, o bosibl, lle mae'n ofynnol i apelyddion wneud gwaith/gymryd camau ar yr un diwrnod pan fydd canlyniad eu hapêl yn hysbys. Gallai hyn olygu y byddai apelyddion naill ai'n methu cydymffurfio mewn pryd â'r penderfyniad, neu mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl bod gwaith paratoi wedi'i wneud yn ddiangen. Mae'r pŵer, felly, i Weinidogion Cymru "estyn y cyfnod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad" yn rheoliad 31(5)(c) yn bwysig er mwyn lleihau'r risg y bydd hyn yn digwydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2021 a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod, ac i ofyn am ymateb i'r pwynt gan Lywodraeth Cymru. Nododd y Pwyllgor hefyd fod cynnig i ddirymu'r Rheoliadau wedi'i gyflwyno, ac y trefnwyd i'r ddadl gyfatebol gael ei chynnal ar 3 Mawrth 2021.

